

Swyddog Ymgysylltu Ymwelwyr

Atebol i: Rheolwr Datblygu

Swydd: Llawn amser (gan gynnwys Gwyliau Banc/penwythnosau/gyda'r nosau)

Rôl

Cefnogi'r Rheolwr Datblygu i ddylunio a chreu prosiectau ymgysylltu, gan gynnwys arddangosfeydd a rhaglenni i'r cyhoedd ac ysgolion, ymhlith eraill. Bydd y prosiectau yn bennaf yn canolbwyntio ar ymgysylltu cynulleidfaoedd â STEAM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg, y celfyddydau, mathemateg), ond mae'n bosibl bydd y Swyddog Ymgysylltu yn gweithio y tu hwnt i'r cwrpas hwn yn ôl yr angen.

Cyflwyno'r holl raglenni ymgysylltu i ysgolion a'r cyhoedd ar gyfer allgymorth a mewngymorth. Mae hyn yn cynnwys sioeau theatr gwyddoniaeth, sioeau planetariwm, clera gwyddoniaeth a gweithgareddau eraill yn ôl yr angen.

Prif gyfrifoldebau:

Ymchwilio, dylunio a chreu rhaglenni (e.e. sioeau, gweithdai, digwyddiadau allgymorth), arddangosfeydd a chyfryngau, i ysgolion a chynulleidfaoedd cyhoeddus.

Bod yn gyfrifol am gysylltu ag arbenigwyr perthnasol ar gyfer y prosiect er mwyn sicrhau y cyflawnir safon uchel o fanwl gywirdeb yn ogystal â sicrhau bod y prosiect yn gyfredol gyda'r ymchwil a'r dechnoleg ddiweddaraf sydd ynghlwm â'r pwnc.

Ymgymryd â phrosiectau ar gyfer cleientiaid mewnlol ac allanol, sicrhau bod canlyniadau o ansawdd dda, yn arloesol a hygyrch i bawb.

Ymchwilio i arddangosfeydd dros dro cyfredol sydd ar gael i ganolfannau gwyddoniaeth a dylunio arddangosfeydd dros dro newydd i alluogi Techniquest i ehangu ei gynnig ac er mwyn adnewyddu cynnwys arddangosfeydd yn rheolaidd.

Yn ogystal, bydd y rôl hon yn cynnwys ymgynghori â chyllidwyr a chleientiaid, yn ogystal â chysylltu â'r gymuned leol a bydd felly yn gofyn profiad o weithio ar y cyd i gyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt.

Cynnal gwaith gwerthuso parhaus mewn perthynas â phob rhaglen dan arweiniad y Rheolwr Datblygu.

Gweithio yn ôl rota 7 diwrnod i sicrhau bod yr holl anghenion yn cael eu bodloni i'r busnes. Mae hyn yn cynnwys penwythnosau a gwyliau banc.

Sicrhau bod pob agwedd ar y sioeau yn cael eu sefydlu. Mae hyn yn cynnwys y canlynol;

- Paratoi pob agwedd ar gynnwys y rhaglenni,
- Sgriptiau yn cael eu diweddarau ac ar gael i bob Swyddog Ymgysylltu
- Aseidiadau risg yn cael eu creu a'u harwyddo gan y swyddogion ymgysylltu sy'n cyflwyno
- Gwirio a glanhau offer
- Prynu propiau a bwyd a diod cyn cyflwyno'r rhaglen a sicrhau bod lefelau cyflenwi yn cael eu cynnal drwy gydol y rhaglen

Bod yn gyfrifol am baratoi'r agwedd gemegol yn unol â rhaglenni Techniquest. Mae hyn yn cynnwys yr holl aseidiadau risg iechyd a diogelwch a COSHH a'r archwiliad cemegol blynyddol.

Bod yn gyfrifol am bob maes sy'n gysylltiedig â chyflwyno rhaglenni Techniquest, mae hyn yn cynnwys manau cyflwyno ac ardaloedd storio rhaglenni.

Bod ar flaen gofynion cwricwlwm addysg ffurfiol Cymru, gan sicrhau bod rhaglenni newydd Techniquest yn bodloni anghenion athrawon ac anghenion eu cwricwlwm.

Bod ar flaen y datblygiadau a newyddion gwyddonol diweddaraf a phynciol.

Adnabod partneriaid a sefydliadau allweddol sy'n gallu datblygu arddangosfeydd dros dro yn seiliedig ar y dyluniadau a grëwyd.

Sicrhau bod prosiectau yn cael eu datblygu o fewn y terfynau amser a'r gyllideb a bennir gan y Rheolwr Datblygu.

Adnabod contractwyr, cyflenwyr, cynghorwyr addas ac eraill yn ôl yr angen, i sicrhau'r gwerth gorau am arian a sicrhau bod y prosiect sy'n cael ei greu o'r ansawdd uchaf. Bydd hyn yn cynnwys cynhyrchu briffiau clir, ceisio dyfynbrisiau, gwneud archebion, goruchwyllo ansawdd a dyddiadau cau.

Dyletswyddau cefnogi

Rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Rheolwr Datblygu ynghylch prosiectau unigol a materion eraill sy'n berthnasol i'r rôl.

Rhoi syniadau, adborth ac awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i aelodau eraill o dîm y prosiect.

Cydweithio â staff mewnol yn ôl yr angen, gan sicrhau y rhoddir rhybudd priodol petai angen amser ac adnoddau staff.

Casglu a chofnodi dogfennaeth yn fanwl gywir, megis derbynebaw, anfonebau a'u prosesu yn ôl yr angen.

Gweithio'n ddiogel a chynnal asesiadau risg, hyfforddiant a mesurau iechyd a diogelwch eraill sy'n berthnasol i'r rôl.

Adnabod a diogelu eiddo deallusol.

Gweithio o fewn Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau Techniquet bob amser a derbyn ein gwerthoedd sef Rhagorol, Ysbrydoledig, Cynhwysol, Cydweithredol, Grymuso ac Arloesol

Gwneud dyletswyddau eraill yn gymesur â'r rôl yn ôl yr angen o bryd i'w gilydd.

Manyleb bersonol

Cymwysterau

Gradd mewn gwyddoniaeth, addysg neu brofiad sy'n berthnasol i'r rôl.

Trwydded yrru lawn

Cymhwyster COSHH (neu barodrwydd i weithio tuag at un o'r fath)

Profiad

Profiad o greu prosiectau ymgysylltu arloesol a llwyddiannus ar gyfer addysg ffurfiol a chynulleidfaoedd cyhoeddus drwy gyfrwng y Gymraeg.

Profiad o ymgysylltu â'r cyhoedd neu ysgolion/cyflwyno yn Gymraeg.

Byddai profiad o amgylchedd prosiect, chwarae rôl allweddol i gyflawni prosiectau yn y sectorau creadigol neu addysg yn ddymunol ond nid yw'n angenrheidiol.

Profiad o ddatblygu adnoddau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm neu adnoddau addysgu yn Gymraeg.

Mae profiad o ddylunio arddangosfeydd yn ddymunol.

Sgiliau, gwybodaeth, galluoedd

Sgiliau ysgrifennu Cymraeg rhugl at amrywiaeth o ddibenion.

Sgiliau cyflwyno i ymgysylltu aelodau'r cyhoedd, cynulleidfaoedd ysgol a chleientiaid corfforaethol.

Sgiliau cyfathrebu rhagorol yn Gymraeg a Saesneg.

Sgiliau cyfrifiadurol rhagorol, yn enwedig gyda Microsoft Office, a'r gallu i ddefnyddio pecynnau graffeg (Indesign/Illustrator) i gynhyrchu deunyddiau o safon.

Sgiliau cynllunio a threfnu cryfion a'r gallu i weithio ar eich liwt eich hun.

Gallu gweithio i gyllideb prosiect a'i monitro a gweithio i amserlenni a therfynau amser gosodedig.

Parodrwydd a gallu i weithio yn ôl rota 7 diwrnod, gan gynnwys Gwyliau Banc.

Nodweddion personol

Digynnwrf dan bwysau, Creadigol, Gallu gweithio mewn tîm.